ANOTHER OUTSTANDING YEAR FOR COLEG MENAI

COLEG MENAI BUILDS ON EXCELLENT PERFORMANCE

Welcome to this review of Coleg Menai's performance in 2006-7. We are pleased to report that this has been another successful year. Our performance is measured against a number of key indicators and each shows that we have reached or exceeded targets. A greater number of people are taking up learning opportunities at Coleg Menai and they are completing their programmes successfully. External recognition has come in the form of a Beacon Award and two Fforwm awards, and major building projects are proceeding according to plan.

Coleg Menai Annual Review '07

A BEACON FOR EMPLOYER ENGAGEMENT

Coleg Menai has gained the Beacon Award for Employer Engagement, sponsored by the Welsh Assembly Government. It is the third time Coleg Menai has won a Beacon Award which recognise excellence in the Further Education sector. The awards are open to over 400 colleges throughout the UK, and Coleg Menai is the only one in Wales to gain recognition this year.

The award was based on the college's achievements in meeting the needs of local employers including the services offered by the Menai Innovation Centre (CAM) in the field of Engineering and the Food Technology Centre in Llangefni.

The college is extremely proud that the services offered by Coleg Menai have been recognised once again. The judges praised the way Coleg Menai offers services to numerous small businesses in Gwynedd and Ynys Môn as well as the innovative work carried out by the engineering team and the Food Technology Centre.

This award follows on from our recognition at last year's Wales Quality Awards, where we took the Overall Wales Quality Award as well as the Learning Prize.

COLEG MENAI
menai.ac.uk

INVESTING IN PEOPLE

At the beginning of this reporting period, Coleg Menai learnt that it had been reaccredited as an Investor in People, uniquely in Wales, without any recommendations. The college followed this up by achieving the Fforwm Award for Workforce Development, in competition with colleges throughout Wales. This award was given in recognition of a very comprehensive staff development programme.

The individual needs of members of staff are linked with college development requirements and national standards to build a programme of training which far exceeds the typical level for a comparable organisation. This is complemented by mentoring of new and less experienced staff and a system of champions in areas like information and learning technologies. The training extends right through the range of staff activities, and includes managers who are currently or likely to take up senior positions.

Through these processes, a far more skilled, experienced and confident workforce can play a full part in raising learner achievement, and ensuring that all aspects of operating a complex institution are very effectively managed.

DEVELOPING SUPPORT

Coleg Menai has made major investments in support for students this year.

As this report and those in previous years have shown, Coleg Menai has invested a great deal of resources into people and buildings, renewal of the curriculum as well as meeting the challenge of bringing teaching and learning up to the highest standard. A priority in 2007 has been additional investment in its support for students.

This entails support for the actual learning process, through libraries, resource centres and information technology, as well as advice, guidance and support to ensure that barriers to success are lowered, and removed wherever possible. For example, all full-time and many part-time students now undertake a skills assessment at interview. This enables the college to plan for and implement a package of additional support wherever necessary. The pilot of the Learning Coach service proved very successful. Accordingly, this has now become an integral aspect of the support services. It provides for an additional layer and more informal way of helping students make progress in their academic work.

The challenge of additional demands for services at the Llangefni site, resulting from the Construction Centre development are to be met by revamping accommodation at the site.

INVESTING IN THE ESTATE

Construction Centre of Excellence - The Largest in Wales

The college's investment in its estates continues with its most ambitious project to date. Work is now well advanced on the state-of-the-art £6.4million Construction Skills Centre at the Coleg Menai Llangefni site. When completed, the Centre will be the largest Construction training facility of its kind in Wales and will have major implications for the future of Construction training in North Wales.

It is essential that training for this industry, that is so vital to the local economy, is given adequate facilities, especially with the local economic changes and the need for skilled people. Coleg Menai is grateful to the Welsh Assembly Government for supporting a major portion of the finance for this project and to our partners in the Construction industry and public sector for their support and encouragement.

The building will extend to 4,500 square metres and will house eight state-of-the-art Joinery, Brickwork, Plastering, Stonemasonry and Exhibition workshops as well as teaching, Information Technology, seminar and tutorial rooms for construction craft training. This new building represents the single largest Post-16 Education project the area has ever seen that enables the college to meet the growing demands for construction skills in the area.

ACHIEVING SUCCESS

Engineering awards

Coleg Menai has an excellent track record in the Engineering Employers Federation Apprentice of the year Awards, and 2006-7 proved to be exceptional. Coleg Menai students studying engineering courses, including the HNC, HND, National Certificate and City & Guilds programmes, were awarded 8 out of the 24 prizes on offer. Two of the students also won the sought-after All Wales Award.

A Level Success

Students at Coleg Menai celebrated excellent A Level results again this year with an overall pass rate of 98.25%. The average A Level pass rate over the past three years is now 99.6% - well over the national average. Over two-thirds of Coleg Menai students achieved an A, B or C grade. Many students studied for the Advanced Welsh Baccalaureate (WBQ) qualification alongside their A Levels and other Advanced Vocational courses. Some 200 of them have progressed to study at university level at Coleg Menai and Universities across the UK.

VOCATIONAL RESULTS IMPRESS

For the first time, there was a vocational results day in Wales in 2007 – an initiative led by Coleg Menai. This year's grades for this important group of qualifications at Coleg Menai reached an all time high, with many courses achieving a 100% pass rate with students obtaining top grades in all their coursework. Students who are successful in these vocational courses are ready for work as their courses focus on the knowledge and skills that employers have identified. Students also have the option of moving on to university level courses if they obtain the required grades and the many students successfully completing National Diplomas at Coleg Menai are among those who have started at university this year.

KEY DATA

Annual Investment in Capital



College turnover



Further Education Volume of Learing



College Surplus



BLWYDDYN LWYDDIANNUS ARALL I COLEG MENAI

COLEG MENAI YN ADEILADU AR BERFFORMIAD RHAGOROL

Croeso i'r adolygiad hwn o berfformiad Coleg Menai yn 2006-7. Mae'n bleser gennym adrodd am flwyddyn lwyddiannus arall. Mae ein perfformiad yn cael ei fesur wrth ochr nifer o ddangosyddion allweddol, ac mae pob un o'r rhain yn dangos ein bod wedi cyflawni neu wedi rhagori ar ein targedau. Mae nifer gynyddol o bobl yn elwa ar gyfleoedd dysgu yng Ngholeg Menai ac yn cwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus. Cawsom gydnabyddiaeth allanol ar ffurf Gwobr Beacon a dwy wobr Fforwm, ac mae cynlluniau adeiladu uchelgeisiol yn mynd rhagddynt ar amser.

Adolygiad Blynyddol Coleg Menai '07

GWOBR BEACON AM YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR

Enillodd Coleg Menai Wobr Beacon am Ymgysylltu â Chyflogwyr, wedi'i noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dyma'r trydydd tro i Goleg Menai ennill Gwobr Beacon, sy'n cydnabod rhagoriaeth yn y sector Addysg Bellach. Mae'r gwobrwyon hyn yn agored i fwy na 400 o golegau yn y DU, a Coleg Menai yw'r unig goleg yng Nghymru i ennill y wobr hon eleni.

Roedd y wobr yn seiliedig ar lwyddiant y coleg i fodloni anghenion cyflogwyr lleol, gan gynnwys gwasanaeth ein Canolfan Arloesi (CAM) ym maes Peirianneg a'r Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni.

Mae'r coleg yn hynod o falch o'r gydnabyddiaeth a roddwyd i'w wasanaethau unwaith yn rhagor. Roedd y beirniad yn canmol y modd mae Coleg Menai yn cynnig gwasanaethau i amryw o fusnesau bach yng Ngwynedd ac Ynys Môn, yn ogystal â gwaith arloesol y tîm Peirianneg a thîm y Ganolfan Technoleg Bwyd.

Mae'r wobr hon yn ychwanegu at y gydnabyddiaeth a gafwyd yng Ngwobrau Ansawdd Cymru y llynedd, gyda'r coleg yn llwyddo i ennill Prif Wobr Ansawdd Cymru yn ogystal â'r Wobr Ddysgu.

COLEG MENAI
menai.ac.uk

BUDDSODDI MEWN POBL

Ar ddechrau cyfnod yr adroddiad, clywodd Coleg Menai ei fod wedi cadw ei statws Buddsoddwr mewn Pobl, a hynny heb unrhyw argymhellion, sy'n sefyllfa unigryw yng Nghymru. Aeth y coleg ymlaen i ennill Gwobr Fforwm am Ddatblygu'r Gweithlu, mewn cystadleuaeth â cholegau ledled Cymru. Enillwyd y wobr hon yn gydnabyddiaeth am raglen ddatblygu staff gynhwysfawr iawn.

Mae anghenion unigol aelodau o'r staff yn gysylltiedig â gofynion datblygu'r coleg a safonau cenedlaethol i adeiladu rhaglen hyfforddiant sydd ymhell uwchlaw'r lefel nodweddiadol ar gyfer sefydliad cyffelyb. Yn gyfochrog â hyn ceir trefn o fentora staff newydd a llai profiadol a system o hyrwyddwyr mewn meysydd fel technoleg gwybodaeth a dysgu. Mae'r hyfforddiant yn rhychwantu'r holl ystod o weithgareddau staff, ac yn cynnwys rheolwyr sy'n dringo, neu'n debygol o ddringo i swyddi uwch.

Trwy gyfrwng y prosesau hyn, gall gweithlu llawer mwy medrus, profiadol a hyderus chwarae rhan lawn wrth godi cyraeddiadau dysgwyr, a sicrhau fod pob agwedd ar redeg sefydliad cymhleth yn cael ei rheoli'n effeithiol.

DATBLYGU CYMORTH

Mae Coleg Menai wedi buddsoddi'n sylweddol eleni mewn cefnogi myfyrwyr.

Fel mae'r adroddiad hwn, ac adroddiadau blaenorol yn ei ddangos, mae Coleg Menai wedi buddsoddi'n helaeth mewn pobl ac adeiladau, adnewyddu'r cwricwlwm ac ymateb i'r her o godi dysgu ac addysgu i'r safonau uchaf. Yn 2007 roedd buddsoddi ychwanegol mewn cefnogi dysgwyr yn flaenoriaeth.

Mae hyn yn golygu cefnogi'r broses ddysgu, trwy lyfrgelloedd, canolfannau adnoddau a thechnoleg gwybodaeth, yn ogystal â chyngor, arweiniad a chymorth i sicrhau ein bod yn gostwng y rhwystrau sy'n atal llwyddiant, a'u gwaredu lle bynnag y mae modd. Er enghraifft, mae pob myfyriwr amser llawn, ac amryw o rai rhan-amser erbyn hyn yn ymgymryd ag asesiad sgiliau ar adeg eu cyfweliad. Mae hyn yn galluogi'r coleg i gynllunio pecyn cymorth ychwanegol lle bo angen. Treialwyd y gwasanaeth Anogwr Dysgu, a bu'n llwyddiant mawr. Yn sgil hynny, mae'r gwasanaeth hwn bellach yn rhan annatod o'r gwasanaethau cefnogi. Mae'n ffordd ychwanegol a mwy anffurfiol o helpu myfyrwyr i wneud cynnydd yn eu gwaith academaidd.

Byddwn yn ymateb i her y galw ychwanegol am wasanaethau ar safle Llangefni o ganlyniad i ddatblygu'r Ganolfan Sgiliau Adeiladu newydd trwy ailwampio adeiladau ar y safle hwnnw.

BUDDSODDI MEWN YSTADAU

Canolfan Ragoriaeth mewn Adeiladu - Y Fwyaf yng Nghymru

Mae buddsoddiad y coleg yn ei ystadau yn parhau, gyda'i brosiect mwyaf uchelgeisiol hyd yn hyn. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y Ganolfan Sgiliau Adeiladu fodern £6.4miliwn ar safle'r coleg yn Llangefni. Ar ôl ei gwblhau, y ganolfan hon fydd y cyfleuster hyfforddiant Adeiladu mwyaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn allweddol i ddyfodol hyfforddiant Adeiladu yng Ngogledd Cymru.

Mae'n hanfodol bod hyfforddiant ar gyfer y diwydiant adeiladu, sy'n allweddol i'r economi lleol, yn derbyn adnoddau digonol, yn enwedig yng nghyswllt y newidiadau economaidd lleol a'r angen am weithwyr medrus. Mae Coleg Menai yn ddiolchgar i Lywodraeth Cynulliad Cymru am noddi cyfran helaeth o'r prosiect ac i'n partneriaid yn y diwydiant Adeiladu ac yn y sector cyhoeddus am eu cefnogaeth a'u hanogaeth.

Bydd yr adeilad 4,500 metr sgwâr yn cynnwys wyth o weithdai modern ar gyfer Gwaith Saer, Bricwaith, Plastro, Gwaith Maen a gweithdai Arddangos, yn ogystal ag ystafelloedd dysgu, Technoleg Gwybodaeth, seminar a thiwtorial ar gyfer hyfforddiant crefft adeiladu. Yr adeilad newydd hwn yw'r prosiect mwyaf erioed ym maes Addysg ôl-16 yn yr ardal, ac mae'n galluogi'r coleg i ateb y galw cynyddol am sgiliau adeiladu yn yr ardal.

LLWYDDIANT

Gwobrau Peirianneg

Mae Coleg Menai wedi gwneud yn dda ar hyd y blynyddoedd yng Ngwobrau Prentis y Flwyddyn y Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianneg, ac roedd 2006-7 yn flwyddyn eithriadol. Llwyddodd myfyrwyr ar gyrsiau peirianneg yng Ngholeg Menai, yn cynnwys rhaglenni HNC, HND, Tystysgrif Genedlaethol a City & Guilds i gipio 8 o'r 24 gwobr oedd ar gael. Llwyddodd dau o'n myfyrwyr hefyd i gipio Gwobr Cymru Gyfan.

Llwyddiant mewn Lefel A

Dathlodd myfyrwyr Coleg Menai ganlyniadau rhagorol mewn Lefel A eto eleni, gyda 98.25% yn pasio. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r canran llwyddiant mewn Lefel A yn 99.6%, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Llwyddodd dros ddau draean o fyfyrwyr Coleg Menai i gael gradd A, B neu C. Bu amryw o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn gyfochrog â Lefel A a chyrsiau Galwedigaethol Uwch eraill. Aeth oddeutu 200 ymlaen i astudio ar lefel prifysgol yng Ngholeg Menai a Phrifysgolion ledled y DU.

CANLYNIADAU GALWEDIGAETHOL YN GWNEUD ARGRAFF DDA

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd diwrnod canlyniadau galwedigaethol yng Nghymru yn 2007 – menter dan arweiniad Coleg Menai. Roedd y graddau eleni ar gyfer y grŵp pwysig hwn o gymwysterau yng Ngholeg Menai yn well nag erioed, gyda chyfradd llwyddiant 100% ar amryw o gyrsiau, a myfyrwyr yn cael y graddau uchaf posibl ym mhob gwaith cwrs. Mae'r myfyrwyr sy'n llwyddo ar y cyrsiau galwedigaethol hyn yn barod ar gyfer y byd gwaith gan fod eu cyrsiau'n canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae'r dewis i fynd ymlaen i astudio ar gyrsiau lefel prifysgol hefyd yn agored i'r myfyrwyr sy'n cyflawni'r graddau angenrheidiol ac mae nifer helaeth o fyfyrwyr a lwyddodd ar gyrsiau Diploma Cenedlaethol yng Ngholeg Menai ymhlith y rhai sydd wedi mynd i brifysgol eleni.

DATA ALLWEDDOL

Buddsoddiad Blynyddol Mewn Cyfalaf



Trosiant Coleg



Nifer o Unedau Dysgu Addysg Bellach



Gwarged Coleg